


# Cynllun y Cyngor Crynodeb Gweithredol

2018-22







## Y Deddfau Llesiant

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn creu Cymru gynaliadwy. Ei Bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni i gyd yn dymuno byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae **Deddf Amgylchedd (Cymru)** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus reoli cyfoeth naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy - sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol, tra'n parhau i wynebu'r heriau o greu swyddi, darparu tai a seilwaith. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu holl ddyletswyddau.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn pennu dyletswyddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru weithio ar hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd yr asesir anghenion pobl a'r ffordd y darperir gwasanaethau, tra'n atgyfnerthu diogelwch a hyrwyddo dulliau ataliol.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn nodi saith o amcanion llesiant rhyngddibynnol ar gyfer Cymru; gyda'i gilydd maent yn darparu cydweledigaeth i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio arni. Felly, mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus weithio ar yr holl amcanion yma.

Yng Nghymru, ein byd natur, tir, dŵr a'r aer yw ein hadnoddau pennaf. Ond mae'r gofynion ar yr adnoddau naturiol yma yn cynyddu, ac un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw cydbwysu llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol - sicrhau y bodlonir anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.


Ar yr un pryd, mae cyllid ar draws y sector cyhoeddus yn prinhaus - mae'n rhaid i ni ganfod ffordd o sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol tra'n gweithio o fewn ein cyllidebau a chyflawni'r heriau presennol o greu a chynnal swyddi, darparu tai a seilwaith.

# Fframwaith Cynllunio y Cyngor

<b>Gwledigaeth</b>	<b>Mae'r Cyngor yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol</b>			<b>Gwerthedd</b>
<b>Purpar</b>	<b>Sicrhau fud Wrecsam a'i phobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, ffynau a chyflawni refnau llaw uchel</b>			
<b>Equyddarinn Arusaol</b>	<b>Daw atal yn gyntaf, Rhoi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed, Cynllunio ar gyfer y tymor hir, Integreiddio a chydweithio Ymgynghori â phobl leol a'u cynnwys, Bydd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn themâu trawbynciol ym mhob blaenoriaeth</b>			
<b>Themâu Strategol</b>	<b>Economi</b> Cefnogi economi egniol, amrywiol a chynhwysol	<b>Pobl</b> Cymunedau cynaliadwy, queithgar a hunan-adiwynnal tra'n diogelu rhai rydd meun perqygl	<b>Lle</b> Cefnogi amgylchedd cynaliadwy a bioamrywiol	<b>Ymddiriedaeth</b>
<b>Cynaliadau sy'n cael Blaenoriaeth</b>	Annog pobol i fyw, gweithio, dysgu, ymweld â a buddsoddi yma	Cefnogi pobl i fagu dyheadau positif, dysgu a chyflawni eu potensial	Hyrwyddo Cartrefi o safon dda ac Adfywiad	<b>Parc</b>
	Cefnogi busnesau i'w lleoli a chynyddu yma	Cefnogi pobl i fyw bywydau actif ac annibynnol yn eu cymuned	Cymryd Balchder yn Ein Hamgylchedd	<b>Arlozeroedd</b>
	Helpu i daclo tloedi	Diogelu y rhai sy'n hawdd i'w niweidio	Hyrwyddo Cymunedau gyda anheliaid, cymdogaethau ac adeiladau cynhaliadwy a deniadol.	<b>Hyblygrwydd</b>
		Gweithio gyda phartneriaid i wneud Wrecsam yn lle diogel, lle mae pobol yn teimlo'n cynhywziedig	Hyrwyddo cymunedau cysylltiol a chynaliadwy.	<b>Hygroedd</b>
		Galluogi mynediad i gyfleusterau hamdden		
	<b>Themâu Gwffurdaethol</b>	<b>Trefnidaeth</b> Adeiladau trefnidaeth effeithlon ac effeithiol sy'n gallu cefnogi lles lleol		
<b>Cynaliadau sy'n cael Blaenoriaeth</b>	Moderneiddio ein gwasaetau			
	Cefnogi cyngor hydwyth			

## Economi

### Cefnogi economi cynaliadwy a ffyniannus



Mae Wrecsam, ynghyd â phum awdurdod lleol arall gogledd Cymru, sefydliadau sector preifat, addysg uwch a phellach, wedi ymuno i fabwysiadu gweledigaeth dwf ar gyfer economi Gogledd Cymru. Mae hyn yn disgrifio sut y gallai buddsoddiad mewn seilwaith allweddol, sgiliau a chymorth i fusnesau drawsnewid yr economi - gan gynyddu'r gwerth o £12.8 biliwn i £20 biliwn y flwyddyn erbyn 2035 - a chreu miloedd o gyfleoedd swyddi newydd yn y broses. Ni ellir ond cyflawni'r Weledigaeth Dwf hon drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gyda buddsoddiad cadarn yn y sector preifat, ac adeiladu ar gysylltiadau economaidd agos ag ardaloedd cyfagos.

Nod y Weledigaeth Dwf yw gwella llesiant economaidd Gogledd Cymru, i gefnogi a chadw pobl ifanc o fewn y rhanbarth, i fynd i'r afael â bod heb waith ynghyd ag anweithgarwch, ac i gefnogi a galluogi buddsoddiad yn sector preifat y rhanbarth.

#### **Ein gweledigaethau hirdymor ar gyfer ein Canlyniadau Blaenoriaeth yw:**

##### **E1: Annog pobl i fyw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma**

Po fwyaf o bobl sydd eisiau adeiladu eu bywydau, gwireddu eu gobeithion neu wario arian yma, y mwyaf cyfoethog y bydd y Fwrdeistref Sirol gyda bywyd o well safon i bawb. Fodd bynnag, mae angen i ni greu'r amgylchedd ffisegol iawn a'r ddelwedd neu broffil iawn o'r ardal i'w hannog i wneud hyn.

##### **E2: Cefnogi busnesau i sefydlu a thyfu yma**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o fusnesau yn Wrecsam wedi cychwyn, buddsoddi neu ail-fuddsoddi o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae ein tîm cefnogi busnes wedi chwarae rôl hanfodol wrth hybu'r economi leol yn Wrecsam - gan helpu busnesau i adleoli a sefydlu yma, a chreu swyddi ar hyd y ffordd ond rydym wedi ailstrwythuro ffocws y tîm, gan symud oddi wrth ddarparu cymorth busnes uniongyrchol i'w alluogi.

##### **E3: Helpu i drechu tlodi**

Mae gan fyw mewn tlodi oblygiadau aruthrol ar gyfer llesiant ac mae effaith tlodi'n croestorri'r holl amcanion llesiant a nodir o fewn Cynllun y Cyngor - p'un a ydynt yn rhai economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol. Mae cyswllt clir rhwng tlodi a materion o ran iechyd, diet, amodau tai ac ymgysylltiad gwael ag addysg. Yr allwedd i godi teuluoedd allan o dldodi, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn byw mewn tlodi, yw hybu dyheadau a chynnal lefel incwm sy'n gwrthdroi'r cylch tlodi.



## Pobl

*Cefnogi cymunedau gweithgar a hunanddibynnol wrth amddiffyn y rheiny mewn angen*



Mae yna dros tua 136,700 o bobl yn byw o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac mae'n debygol y bydd cynnydd o tua 13,000 o bobl dros y 25 mlynedd nesaf. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys gostyngiad yng nghyfran y plant o dan ddeg, tra disgwylir y bydd y cynnydd mwyaf yn y grwpiau oedran hŷn. Mae gwella cyrhaeddiad addysgol i bobl ifanc yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor, yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion a rhieni lleol, yn ogystal â Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion Gogledd Cymru.

### **Ein gweledigaethau hirdymor ar gyfer ein Canlyniadau Blaenoriaeth yw:**

#### **Pe1: Cefnogi pobl i gael dyheadau cadarnhaol ac i ddysgu a gwireddu eu potensial**

Mae cymwysterau academaidd a galwedigaethol yn rhoi dechrau cadarnhaol i bobl mewn bywyd, ynghyd â chyfle gwell i gael mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd. Mae agwedd gadarnhaol mewn amgylchedd dysgu o safon yn hybu gallu unigolion i ddysgu sgiliau newydd ar hyd eu hoes, i fod yn gadarn ac i fabwysiadu'r cyfleoedd newidiol o'u hamgylch. Rydym eisiau i bawb yn y Fwrdeistref Sirol gael dyheadau uchel, ynghyd â'r hyder, y cyfleoedd a'r cymwysterau i'w cyflawni.

#### **Pe2 Cefnogi pobl i fyw bywydau egnïol ac annibynnol o fewn eu cymunedau**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn hyrwyddo dull newydd o weithio ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn modd sy'n galluogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'r gefnogaeth y maent ei hangen i gynnal eu lles eu hunain.

#### **Pe3 Diogelu pobl ddiamddiffyn**

Hyd yn oed fel y mae ein gwasanaethau'n rhoi mwy o sylw i ddarparu cymorth yn gynnar, er mwyn atal problemau rhag dwysáu i fod yn argyfwng, byddwn yn dal i fod angen cael gwasanaethau yn eu lle i ddiogelu pobl ddiamddiffyn sydd mewn perygl. Mae'r cyngor yn gweithio i sicrhau y darperir gwasanaethau ymatebol, o ansawdd dda i bobl ddiamddiffyn a'u teuluoedd, fel y maent eu hangen.

#### **Pe4 Gweithio gyda'n partneriaid i wneud Wrecsam yn lle diogel y mae pobl yn rhan ohono**

Mae lefelau trosedd a pha mor ddiogel y mae pobl yn teimlo wedi'u rhestru gan bobl fel ffactorau allweddol sy'n effeithio ansawdd eu bywydau. Ni ellir ond gwella diogelwch, a'r teimlad o fod yn ddiogel, mewn partneriaeth. Mae cyfraniad y cyngor yn allweddol, drwy ei ddyletswydd statudol o dan y ddeddf Trosedd ac Anrhefn i weithio gyda phartneriaid i leihau trosedd ac anrhefn, ac i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a'i rôl o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.

#### **Pe5 Darparu mynediad at weithgareddau hamdden a diwylliannol**

Ceir cysylltiadau cryf rhwng mynediad i bobl i fannau gwyrdd, gweithgareddau hamdden a diwylliannol a'u llesiant cyffredinol. Po fwyaf y mae pobl yn defnyddio'r pethau hyn, bydd ansawdd eu bywydau'n gwella. Mae'r cyngor yn darparu ac yn galluogi ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau i helpu i wella llesiant – ledled y Fwrdeistref Sirol drwy gydol y flwyddyn.

## Place

### *Cefnogi amgylchedd cynaliadwy ac amrywiol*



Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gorchuddio bron i 500km<sup>2</sup> o ogledd ddwyrain Cymru ac yn ffinio â Swydd Gaer, Swydd Amwythig, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn hardd ac yn amrywiol. Ceir yma'r dref fwyaf yng Nghymru; Traphont Pontcysyllte Thomas Telford (Safle Treftadaeth y Byd); un o gyforgorsydd mwyaf Prydain sy'n gartref i leision y dorlan, elyrch mud, llygod pengrwn y dŵr ac unig gynefin gweision y neidr wynebwyn yng Nghymru; ynghyd ag un o stadau diwydiannol mwyaf Ewrop sy'n gartref i fusnesau fel Kellogg's a JCB; ac i'r gorllewin ceir y bryniau a'r pentrefi yn harddwch Dyffryn Ceiriog.

### **Ein gweledigaethau hirdymor ar gyfer ein Canlyniadau Blaenoriaeth yw:**

#### **PI1: Hyrwyddo tai o ansawdd da ac adfywio**

Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i wynebu heriau o ganlyniad i alwadau a deddfwriaeth newidiol. Fodd bynnag, mae diwallu anghenion tai poblogaeth amrywiol a chynyddol yn gyfle yn ogystal ag yn her. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth i ddarparu rhagor o dai, rhagor o ddewis a gwell gwasanaethau tai i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol. Yn erbyn y cefndir hwn, bydd y Strategaeth Dai Leol sy'n datblygu yn nodi cyfeiriad ac ymateb clir.

#### **PI2: Gwerthfawrogi ein hamgylchedd**

O safbwynt effeithiau amgylcheddol newid hinsawdd, cost gynyddol trydan a thanwyddau ffosil, targedau'r Llywodraeth a chosbau a orfodir ar allyriadau carbon, a faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, mae cyfrifoldeb amgylcheddol yn flaenoriaeth i Wrecsam.

#### **PI3: Cymunedau o anheddau, cymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol**

Rydym eisiau i'n cymunedau weithredu a thyfu mewn cytgord â'i gilydd, a chynnal cysylltiadau cadarnhaol sy'n cydnabod bod gan bawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gyfuniad unigryw o nodweddion, sgiliau, cefndiroedd, treftadaeth a chredau.

#### **PI4: Cymunedau sy'n gynaliadwy ac wedi'u cysylltu'n dda**

Mae argaeledd swyddi, neu fodolaeth mannau gwyrdd, siopau a chyfleoedd diwylliannol yn golygu fawr ddim os nad yw'n bosibl i bobl allu cael mynediad iddynt yn rhwydd, ac mewn modd sy'n fforddiadwy iddynt. Ceisiwn sicrhau bod gan bobl leol ystod o opsiynau cludiant cynaliadwy drwy lobio a gweithio gyda phartneriaid i gynnal a gwella ein seilwaith cludiant, a thrwy wneud yr hyn y gallwn i gefnogi darparwyr cludiant lleol.



## Sefydliad

*Creu sefydliad effeithlon ac effeithiol sydd yn y lle gorau i gefnogi lles pobl leol*



Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 52 aelod etholedig a Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys aelodau arweiniol sy'n derbyn cefnogaeth gan Bwyllgorau Craffu ac sy'n atebol iddynt.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel nifer o sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, yn lleihau ei faint fel sefydliad ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol yn parhau i wynebu gostyngiadau yn y cyllid a dderbynnir ganddynt gan y llywodraeth ganolog ac mae hyn, ochr yn ochr â chyfrifoldebau newydd, yn effeithio ar ein cyllideb a'n hadnoddau. Oherwydd bod y pwysau ariannol yn mynd yn drymach, ac er mwyn cynnal cyllideb gytbwys, rydym ni wedi gorfod ail-lunio ein gwasanaethau a symleiddio ein gweithlu.

### **Ein gweledigaethau hirdymor ar gyfer ein Canlyniadau Blaenoriaeth yw:**

#### **O1 - Parhau i foderneiddio ein gwasanaethau**

Rydym yn ymroddedig i ddatblygu ein gwasanaethau ar-lein i ganiatáu i ragor o gwsmeriaid ymgysylltu â'r cyngor yn ddigidol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaeth cyfrifon cwsmeriaid personol ac wedi lansio gwasanaeth newydd a gwell yn 2018. Mae ein safleoedd cyfryngau cymdeithasol a'r blog newyddion wedi profi i fod yn eithriadol o boblogaidd gyda chwsmeriaid, a byddwn yn lansio ein gwasanaeth sgwrsio ar-lein yn fuan. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw gwasanaethau digidol yn addas i bawb. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu hyfforddiant a chymorth i gwsmeriaid na ydynt mor hapus yn defnyddio sianelau digidol neu'n methu â gwneud hynny, ac rydym yn parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir drwy sianelau traddodiadol, fel cyswllt wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

#### **O2 – Cefnogi Cyngor cryf**

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl Wrecsam yn cael cymorth i gyflawni eu potensial i allu ffynnu a chyflawni lefel uchel o lesiant. Mae'r pwysau ariannol cynyddol yr ydym yn parhau i'w wynebu, ynghyd â'r cyd-destun bythol newidiol yr ydym yn gweithio ynddo yn golygu, er mwyn gwneud hyn, bod angen i ni gael gweithlu sy'n hyblyg, yn glir o ran eu canolbwynt, ac yn effeithiol. Mae'n rhaid i ni ddod yn sefydliad llai, mwy darbodus, gyda gweithlu sy'n ymgorffori ein gwerthoedd ac sy'n perfformio hyd orau ei allu, er mwyn cyflawni ein haddewidion i'n cwsmeriaid. Rydym eisiau bod yn gyflogwr da ac yn ceisio recriwtio'r gorau - gan gadw ein talent drwy hoelio sylw ar ddatblygu a chefnogi'r gweithlu.

## Cynllun y Cyngor 2018 - 2022

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o Gynllun y Cyngor 2018-22 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn [www.wreccsam.gov.uk](http://www.wreccsam.gov.uk), ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu ar gais gan y manylion cyswllt isod.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant drwy fonitro ein cynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r targedau a gytunwyd arnyn nhw, a fydd yn ein helpu i fesur y gwahaniaeth rydym ni wedi ei wneud i fywydau pobl leol. Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith parhaus y Cyngor i ail-lunio gwasanaethau er mwyn goresgyn yr her ariannol ddigynsail sydd o'n blaenau a blaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn.



### Fformatau Eraill

Mae'r ddogfen hon a'r cynllun llawn ar gael ar gais mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch gan gynnwys print bras, Braille, DVD laith Arwyddion Prydain, CD sain, ar gasét sain neu ddisg gyfrifiadurol.

Gall hefyd fod ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen ac ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg. I wneud cais am fformat arall, defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

### Adborth

Mae yna groeso mawr i chi anfon eich sylwadau ynglŷn â chynnwys neu ddiwyg yr adroddiad yma. Os oes gennych chi awgrymiadau neu sylwadau ynglŷn â sut i wneud y ddogfen yn fwy darllenadwy, neu os ydych o'r farn y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar feysydd eraill/ychwanegol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod. Bydd pob awgrym ynglŷn â gwaith y Cyngor yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o reoli perfformiad a diweddarau'r cynllun hwn. Bydd sylwadau ynglŷn â'r cynllun yn cael eu hystyried cyn ei gyhoeddi eto yng ngwanwyn 2019.

I gyflwyno adborth, defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

### Manylion Cyswllt

Gwasanaeth Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam,  
Stryt y Lampint,  
Wreccsam  
LL11 1AY

E-bost: [telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk](mailto:telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk)  
Rhif Ffôn: 01978 292263